**Ein Proses Asesu**

Os oes gennych ddiddordeb mewn gwneud cais am y rôl hon, nodwch y bydd eich cais yn cael ei sifftio i benderfynu a ydych yn addas i symud ymlaen i gyfweliad ac asesu.

Bydd y sifftio, a'r camau cyfweliad ac asesu dilynol, yn adolygu'r meini prawf canlynol:

| Meini Prawf Hanfodol | Yn cael ei asesu adeg Sifftio | Yn cael ei asesu adeg Cyfweliad / Asesu |
|---|---|---|
| **Cymwysterau** | | |
| Cymhwyster cyfrifyddu CCAB a/neu radd mewn pwnc sy'n ymwneud â gwyddor data (e.e. gwyddor cyfrifiaduron, gwyddor geo-ofodol, mathemateg, ystadegau, ffiseg, cemeg, peirianneg). | Ydy | |
| **Sgiliau a galluoedd** | | |
| Gallu cryf i raglennu (R, Python, ac ati) a phrofiad y gellir ei ddangos yn y meysydd canlynol:<br><br>• Peirianneg data – fel dylunio algorithmau, gweithredu datrysiadau data mawr, systemau cronfeydd data SQL a NoSQL, ac ieithoedd ac offer dadansoddi ystadegol.<br><br>• Dadansoddi data – megis modelu ystadegol, adnabod patrymau, dysgu dan oruchwyliaeth a dysgu heb oruchwyliaeth, cloddio data, a dadansoddiad rhagfynegol.<br><br>• Rheoli data – megis trin a dadansoddi data cymhleth, data sy'n enfawr o ran maint ac amrywiaeth, modelu data, a storio yn y cwmwl.<br><br>• Adrodd straeon a delweddu data – gan gynnwys delweddu mewnwelediadau sy'n deillio o ddata a datblygu cynhyrchion sy'n cael eu hysgogi gan ddata gan ddefnyddio offer fel Power BI (gan gynnwys DAX). | Ydy | Ydy |
| Bod yn hyfedr wrth ddefnyddio meddalwedd TG fel MS Teams, Word, Excel, PowerPoint a Planner. | Ydy | |
| Y gallu i gyfleu materion cymhleth mewn ffordd ddealladwy i ystod o randdeiliaid gwahanol, gan addasu'r dull cyfathrebu i sicrhau'r effaith fwyaf posibl. | | Ydy |

| | | |
|---|---|---|
| Y gallu i ddefnyddio sgiliau holi lefel uchel a gwrando gweithredol i gael dealltwriaeth lawn o faterion, gwerthfawrogi safbwyntiau eraill a herio safbwyntiau gwahanol yn briodol – hwyluso sesiynau 'straeon defnyddwyr'. | | Ydy |
| Dangos sgiliau ysgrifennu o safon uchel, gyda'r gallu i gyfleu negeseuon mewn modd clir a chryno. | Ydy | |
| Sgiliau rheoli amser a rheoli prosiectau amlwg a hynod effeithiol – gan gynnwys y gallu i arwain portffolio o brosiectau, rhai ohonynt yn fawr a/neu'n gymhleth, yn unol â safonau ansawdd uchel ac yn aml o fewn terfynau amser tynn. | Ydy | Ydy |
| Y gallu i gyfathrebu'n hyderus, yn glir ac yn argyhoeddiadol, gan addasu'r dull cyfathrebu yn briodol ar gyfer amrywiaeth eang o gynulleidfaoedd, megis uwch-reolwyr, byrddau, pwyllgorau archwilio a staff. | | Ydy |
| Sgiliau dadansoddi effeithiol a'r gallu i ffurfio barn broffesiynol sydd wedi'i hystyried yn ofalus, yn seiliedig ar dystiolaeth. | Ydy | Ydy |
| Ymrwymiad i arddull hyfforddi – a phrofiad amlwg o'i defnyddio – wrth gyfarwyddo ac adolygu gwaith eraill, e.e. darparu adolygiad ac adborth prosiect amserol ac adeiladol i gefnogi cyflawni archwiliadau a datblygiad y tîm. | Ydy | |
| Y gallu i weithredu'n rhesymegol ac yn greadigol i ddylanwadu ar effaith Archwilio Cymru ymhlith rhanddeiliaid mewnol ac allanol. | Ydy | Ydy |
| Y gallu i ddeall cysyniadau newydd a deall materion yn gyflym, ac ymateb yn briodol dan bwysau mewn lleoliadau Bwrdd neu Bwyllgor Archwilio. | Ydy | |
| Sgiliau amlwg wrth baratoi data – sy'n aml yn gymhleth neu'n hynod sensitif – sy'n dangos yn glir ddealltwriaeth o'r data. | | Ydy |
| Barn gadarn a sgiliau meddwl yn feirniadol i sicrhau bod y canlyniadau yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn mynd i'r afael â'r materion allweddol. | Ydy | |
| **Profiad** | | |
| Gwybodaeth am weithio gydag amrywiaeth o gleientiaid/sectorau. | Ydy | |
| Tystiolaeth o reoli tîm yn effeithiol a'r gallu i feithrin amgylchedd tîm cadarnhaol – ynghyd â gallu amlwg i arwain staff sydd ag amrywiaeth o sgiliau, cefndiroedd a phrofiadau. | | Ydy |
| Sgiliau rhagorol o ran rheoli staff i bennu cyfeiriad a rheoli staff sydd ag amrywiaeth o sgiliau, cefndiroedd a phrofiadau, er mwyn cyflawni | | Ydy |

| | | |
|---|---|---|
| gwaith o ansawdd uchel o fewn terfynau amser tynn. | | |
| Profiad sylweddol o arwain prosiectau, a deall, datrys a rheoli timau i fynd i'r afael â materion technegol a phroffesiynol gan ddefnyddio sgiliau datblygedig iawn. | | Ydy |
| **Nodweddion personol** | | |
| Perchenogaeth ac atebolrwydd clir dros ei Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus (CPD) a'i datblygiad ei hun, gyda chofnod cyfredol o'i CPD. | Ydy | |
| Sgiliau rhyngbersonol rhagorol, ynghyd â gallu amlwg i ffurfio a datblygu perthnasoedd effeithiol â staff allweddol, swyddogion a rhanddeiliaid, gan ddefnyddio sgiliau perswadio a dylanwadu sy'n fedrus ac yn ystyriol ond yn gadarn. | | Ydy |
| Hunanhyderus a hunanymwybodol, agwedd gadarnhaol a gwydn. | Ydy | |
| Cyflymder gwaith digonol, ynghyd â sgiliau cynllunio a threfnu rhagorol i sicrhau bod pob prosiect yn cael ei gwblhau yn unol â gofynion amser, cost ac ansawdd. | Ydy | Ydy |
| **Cyffredinol** | | |
| Yn hunanymwybodol ac yn dangos esiampl o werthoedd ac ymddygiadau Archwilio Cymru | Ydy | Ydy |
| Ymwybyddiaeth o gydraddoldeb ac amrywiaeth ac ymrwymiad iddynt | Ydy | |
| Ymwybyddiaeth o'r trefniadau iechyd a diogelwch ac ymrwymiad iddynt | Ydy | |